

|               |  |
|---------------|--|
| CYFARFOD:     | PWYLLGOR LLYWODRAETH AC ARCHWILIO  |
| DYDDIAD:      | 12 HYDREF 2023   |
| TEITL:        | DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS   |
| PWRPAS:       | Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y dangosyddion darbodus yn cael eu hadrodd bob chwarter |
| ARGYMHELLIAD: | DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH  |
| AWDUR:        | DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI   |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) Mae'r adroddiad chwarterol newydd hwn yn rhoi diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad newydd yng Nghod 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, o ddarparu adroddiadau chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 2. Cefndir Economaidd

O ddechrau'r chwarter hyd at fis Mai roedd hi'n edrych fel bod cyfraddau polisi ariannol byd-eang brig yn y golwg wrth i chwyddiant barhau i leddfu a banciau canolog yn troi'n fwy dof eu naws. Dim ond ychydig wythnosau'n ddiweddarach, newidiodd data chwyddiant cryfach a mwy cyson, yn enwedig yn y DU, y darlun.

Nid oedd sefyllfa'r DU yn newyddion i'w groesawu i Fanc Lloegr. Roedd twf GDP yn wan, wedi'i gadarnhau ar 0.1% yn Ch1, er bod data GDP misol mwy diweddar wedi bod ychydig yn well. Mae'r farchnad dai wedi arafu, mae galw defnyddwyr yn wan ond yn gwella i bob golwg er gwaethaf cyfraddau llog uwch, ac mae'r galw am lafur wedi parhau'n gryf, gydag ôl-ffeithiau ar gyfer twf cyflogau sy'n cyflymu.

Dangosodd data mis Ebrill fod y gyfradd ddiweithdra wedi cynyddu i 3.8% tra bod y gyfradd cyflogaeth wedi codi i 76.0%. Roedd twf cyflog yn 6.5% ar gyfer cyfanswm cyflog (gan gynnwys taliadau bonws) a 7.2% ar gyfer tâl rheolaidd, y gyfradd twf fwyaf o'r olaf y tu allan i bandemig Covid. Ar ôl eu haddasu ar gyfer chwyddiant, fodd bynnag, roedd y twf yng nghyfanswm cyflogau a chyflogau rheolaidd yn parhau'n negyddol.

Gostyngodd chwyddiant o'i uchafbwynt o 11.1% a gyrhaeddwyd ym mis Hydref 2022, ond roedd y prif CPI blynyddol ym mis Mai 2023 yn uwch na'r rhagolygon consensws ar 8.7% (disgwylir 8.4%), wedi'i ysgogi'n bennaf gan chwyddiant gwasanaethau, tra bod y mesur blynyddol o chwyddiant craidd wedi codi i 7.1% o 6.8%.

Ar ôl cynnydd sydyn yn nîsgwyliadau cyfraddau llog, gyda goblygiadau amlwg yn ddirifol i farchnadoedd morgeisi oherwydd chwyddiant uwch a data cyflogau, ailgyflymodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr y tynhau polisi ariannol dros y cyfnod gyda chynnydd o 0.25% ym mis Mai i godiad o 0.5% ym mis Mehefin, gan gynyddu y Gyfradd Banc i 5.0%. Yn y ddau gyfarfod roedd y bleidlais yn 7-2 o blaid cynyddu cyfraddau, gyda'r ddau anghydfurfiwr yn ffafrio cadw'r cyfraddau yn ôl.

Roedd disgwyliaid cyfraddau llog wedi prisio mewn codiadau pellach mewn cyfraddau polisi. Diwygiodd Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, ei ragolwg i ragweld 0.5% pellach o dynhau ariannol i fynd â Chyfradd Banc i 5.5%. Y risgiau, fodd bynnag, yw y gallai cyfraddau fod yn uwch; mae marchnadoedd ariannol yn rhagweld cyfraddau llog polisi uwch na 6%.

Gyda llawer o forgeisi ar gyfraddau sefydlog isel bellach yn cael eu hailosod yn systematig dros y 12-24 mis nesaf ar gyfraddau uwch ar ddiwedd eu cyfnod cyfradd sefydlog, bu effaith arafedig y porthiant polisi ariannol ar incwm gwario aelwydydd. . Disgwylir i'r arafu economaidd ddatblygu dros amser ac felly, er bod mesur GfK o hyder defnyddwyr yn codi i -24 ym mis Mehefin, mae'n debygol y bydd hyder yn cael ei effeithio'n negyddol ar ryw adeg. Contractiodd y sector gweithgynhyrchu yn ystod y chwarter yn ôl data arolwg, a fydd yn y pen draw yn bwydo i mewn i wasanaethau, y mae eu ehangiad yn arafu.

Er i Gronfa Ffederal yr Unol Daleithiau gynyddu ei chyfradd llog allweddol i 5.00-5.25% dros y cyfnod, parhaodd gweithgaredd yn y rhanbarth i herio tynhau ariannol, yn enwedig mewn marchnadoedd llafur sydd hyd yn hyn wedi ymddangos yn gadarn, gan gefnogi honiadau'r Ffed o ddau godiad cyfradd arall ar ôl seibiant ym mis Mehefin. Parhaodd chwyddiant blynyddol yr UD i leddfu, gan ostwng o 4.9% ym mis Ebrill i 4.0% ym mis Mai, y lefel isaf ers mis Mawrth 2021. Roedd twf CMC yr Unol Daleithiau ar 2% yn flynyddol yn chwarter calendr cyntaf 2023 hefyd yn sylweddol gryfach na'r disgwyl yn erbyn yr amcangyfrif cychwynnol o 1.3%

Ym mharth yr ewro, roedd y darlun ychydig yn wahanol. Cynhaliodd Banc Canolog Ewrop ei naws *hawkish* a chynyddodd ei cyfraddau blaendal allweddol, cyfraddau ail-ariannu, a chyfraddau llog benthyca ymylol i 3.50%, 4.00% a 4.25% yn y drefn honno. Roedd arwyddion o weithgarwch yn gwanhau, yn enwedig yn yr Almaen ble mae'r sector cynhyrchu wedi cael ergyd gan brisiau ynni uchel a galw byd-eang gwannach. Fodd bynnag, arhosodd chwyddiant yn ludiog, gostyngodd CPI pennawd blynyddol i 5.5% ym mis Mehefin tra cododd chwyddiant craidd blynyddol i 5.4% o 5.3%, sy'n golygu nad yw'r ECB yn debygol o atal tynhau ariannol.

### 3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 30 Mehefin 2023 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £55m yn deillio o'i weithgareddau referniw a chyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau o dan eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

|  | 31.3.23<br>Balans<br>£m | Symudiad<br>£m | 30.6.23<br>Balans<br>£m |
|--|-------------------------|----------------|-------------------------|
| Benthyca tymor hir                       | 100.9                   | (1.4)          | 99.5                    |
| Benthyca tymor hir                       | 1.1                     | 1.2            | 2.3                     |
| PFI                                      | 1.2                     | (0.0)          | 1.2                     |
| <b>Cyfanswm benthyca</b>                 | <b>103.2</b>            | <b>(0.2)</b>   | <b>103.0</b>            |
| Buddsoddiadau tymor byr                  | (89.9)                  | (8.6)          | (98.5)                  |
| Arian a chyfwerthoedd arian              | (62.8)                  | 3.8            | (59.0)                  |
| <b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>            | <b>(152.7)</b>          | <b>(4.8)</b>   | <b>(157.5)</b>          |
| <b>Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)</b> | <b>(49.5)</b>           | <b>(5.0)</b>   | <b>(54.5)</b>           |

Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2022/23, gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

### 4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.


- i) **Meincnod ymrwymiad:** Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymiad sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod ymrwymiad yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddw'r hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif

o swm cronnus y benthycia allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a referniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar yr isafswm lefel o £10m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

|                                  | <b>31.3.23<br/>Gwir</b> | <b>31.3.24<br/>Amcan</b> | <b>31.3.25<br/>Amcan</b> | <b>31.3.26<br/>Amcan</b> |
|----------------------------------|-------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| CFR Benthyciadau                 | 171.0                   | 177.5                    | 178.9                    | 179.9                    |
| Llai: Adnoddau mantolen          | (129.7)                 | (177.1)                  | (103.6)                  | (90.2)                   |
| <b>Gofyniad benthyciadau net</b> | <b>41.3</b>             | <b>60.4</b>              | <b>75.3</b>              | <b>89.7</b>              |
| Ychwanegu: Gofynion hylifedd     | 10.0                    | 10.0                     | 10.0                     | 10.0                     |
| <b>Meincnod ymrwymiad</b>        | <b>51.3</b>             | <b>70.4</b>              | <b>85.3</b>              | <b>99.7</b>              |
| <b>Benthyciadau presennol</b>    | <b>102.0</b>            | <b>98.3</b>              | <b>92.7</b>              | <b>88.7</b>              |

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthycia uwchlaw ei feincnod atebolrwydd hyd at 2025. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Yn dilyn ymlaen o'r rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod ymrwymiadau hirdymor yn rhagdybio na chaiff unrhyw wariant cyfalaf newydd ei ariannu drwy fenthycia a isafswm darpariaeth referniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthycia yn y tymor hir yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

- ii) **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

|                                | 30.6.23<br>Gwir | Terfyn<br>Uchaf | Terfyn<br>Isaf | Cydymffurfio |
|--------------------------------|-----------------|-----------------|----------------|--------------|
| Dan 12 mis                     | 2.4%            | 25%             | 0%             | ✓            |
| 12 mis ac o fewn 24 mis        | 5.5%            | 25%             | 0%             | ✓            |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd     | 9.5%            | 50%             | 0%             | ✓            |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 9.1%            | 75%             | 0%             | ✓            |
| 10 mlynedd a mwy               | 73.5%           | 100%            | 0%             | ✓            |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

- iii) **Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys tymor hir:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Mae'r terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yn:

|  | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Dim<br>dyddiad<br>penodol |
|--|---------|---------|---------|---------------------------|
| Gwir brifswm wedi'i fuddsoddi y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £15m    | £0      | £0      | £0                        |
| Terfyn ar y prif fuddsoddiad y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn  | £40m    | £20m    | £20m    | £20m                      |
| <b>Cydymffurfio</b>  | ✓       | ✓       | ✓       | ✓                         |

### Dangosyddion ychwanegol

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysu gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

|                                     | 30.6.23<br>Gwir | Targed<br>2023/24 | Cydymffurfio |
|-------------------------------------|-----------------|-------------------|--------------|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.71            | Sgôr o 6 neu is   | ✓            |

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthycia ychwanegol.

|   | <b>30.6.23<br/>Gwir</b> | <b>Targed<br/>2023/24</b> | <b>Cydymffurfio</b> |
|---|-------------------------|---------------------------|---------------------|
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £134m                   | £10m                      | ✓                   |

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwmp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

|   | <b>30.6.23<br/>Gwir</b> | <b>Terfyn<br/>2023/24</b> | <b>Cydymffurfio</b> |
|---|-------------------------|---------------------------|---------------------|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog       | £1,314,010              | £1,039,420                | X                   |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwmp o 1% yng nghyfraddau llog | £1,314,010              | £1,039,420                | X                   |

Ni chydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn oherwydd gosodwyd y dangosydd pan oedd cyfraddau llog yn isel, ond mae lefelau llog wedi codi'n sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae'n rhesymol bod y symiau yn uwch na'r terfyn.

## **5. Argymhelliad**

I dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.